ASESIAD EFFAITH HAWLIAU PLANT

1. **Amcanion polisi**

Mae'r asesiad effaith sy'n cael ei gynnal yn ymwneud â'r penderfyniad ynghylch a ddylid diwygio Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 er mwyn galluogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth mewn amgylchiadau rhagnodedig pan fydd darparwr gwasanaeth maethu er-elw presennol yn ailsefydlu ei hun fel darparwr gwasanaeth maethu nid-er-elw. Nod y diwygiadau arfaethedig yw helpu i roi Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ar waith a chefnogi'r broses o drawsnewid i wasanaethau plant nid-er-elw yng Nghymru.

Amcan y polisi yw osgoi achosion o ailasesu gofalwyr maeth yn ddiangen lle na fu unrhyw newid sylweddol o ran eu haddasrwydd, gan ar yr un pryd gynnal camau diogelu a chamau goruchwylio rheoleiddiol priodol. Nod y cynnig yw hyrwyddo sefydlogrwydd a pharhad i blant sy'n byw gyda gofalwyr maeth drwy leihau'r risg o darfu ar leoliadau maeth yn ystod cyfnodau o drawsnewid sefydliadol.

2. **Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**

Mae'r cynnig wedi'i lywio gan dystiolaeth ar bwysigrwydd sefydlogrwydd a pharhad i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys tystiolaeth y gall achosion o darfu ar leoliad gael effaith negyddol ar lesiant, cydberthnasau a chanlyniadau plant. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a grynhowyd yng nghanllaw Cymdeithas ar gyfer Maethu, Gofal Perthynas a Mabwysiadu (AFKA) Cymru *Gwella Sefydlogrwydd Lleoliadau i Blant sy'n Derbyn Gofal mewn Lleoliadau Maeth*, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd cydberthnasau sefydlog a magwrus a sefydlogrwydd lleoliadau wrth wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae'r polisi hefyd wedi'i lywio gan y rhaglen ddiwygio ehangach sy'n deillio o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 a'r broses o ystyried goblygiadau ymarferol trawsnewidiadau sefydliadol ar gyfer gwasanaethau maethu, gofalwyr maeth a phlant. Mae'r cynnig wedi'i gynllunio'n benodol i osgoi achosion o ailasesu gofalwyr maeth yn ddiangen a lleihau'r risg o darfu ar leoliadau maeth presennol pan fydd darparwr gwasanaeth maethu yn trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw.

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar blant sy'n byw gyda gofalwyr maeth drwy gefnogi parhad a sefydlogrwydd yn eu trefniadau gofal. Plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yw'r grŵp yr effeithir arno'n fwyaf uniongyrchol. Ni ddisgwylir i'r polisi gael effeithiau gwahanol ar blant yn seiliedig ar oedran, anabledd, ethnigrwydd, y Gymraeg, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd na nodweddion gwarchodedig eraill, gan nad yw'n newid cymhwystra ar gyfer gwasanaethau maethu na'r safonau gofal a ddarperir. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc.

Ni chynhaliwyd unrhyw waith ymgysylltu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn benodol ar gyfer y diwygiadau arfaethedig hyn. Mae'r cynnig o natur dechnegol a gweinyddol, gan ei fod yn ymwneud â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth yn ystod newidiadau sefydliadol i ddarparwyr gwasanaethau maethu. Nid yw'n newid hawliau plant, eu hawliadau, eu mynediad at wasanaethau na'r ffordd y gwneir penderfyniadau am blant unigol.

Fodd bynnag, mae'r sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r cynnig yn cynnwys gweithgarwch ymgysylltu, ymgynghori a chyfranogi ehangach a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen i ddileu elw o wasanaethau sy'n darparu gofal i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Drwy'r rhaglen hon, tynnodd plant a phobl ifanc sylw at bwysigrwydd cydberthnasau sefydlog, parhad gofal a sicrhau bod lles pennaf plant yn parhau'n rhan greiddiol o drefniadau gofal. Mae'r cynnig yn ceisio cefnogi'r blaenoriaethau hyn drwy sicrhau nad yw newidiadau sefydliadol sy'n effeithio ar ddarparwyr maethu yn tarfu'n anfwriadol ar leoliadau presennol na chydberthnasau yr ymddiriedir ynddynt. Nodiadau digwyddiad trafod i randdeiliaid.pdf

Nodwyd nifer o risgiau a chawsant eu hystyried wrth ddatblygu'r polisi. Roedd y rhain yn cynnwys y posibilrwydd o ansicrwydd yn ystod cyfnodau pan fyddai darparwyr yn trawsnewid, gofalwyr maeth yn penderfynu peidio â throsglwyddo i sefydliadau olynol, a gwahanol ffyrdd o ddehongli gofynion o ran parhad sefydliadol.

Caiff y risgiau hyn eu lliniaru drwy feini prawf cymhwystra a chanllawiau clir er mwyn helpu i wneud penderfyniadau cyson; camau goruchwylio rheoleiddiol parhaus gan Arolygiaeth Gofal Cymru; gwaith ymgysylltu a chyfathrebu cynnar â gofalwyr maeth drwy gydol y broses drawsnewid i gefnogi hyder a chynnal cyfraddau cadw; cynnal trefniadau diogelu a chymorth presennol; a gofyniad i adolygu'r cymeradwyaethau a drosglwyddwyd o fewn 12 mis.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y cynnig. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad ar gael i'r cyhoedd, a gwahoddwyd rhanddeiliaid sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc, gan gynnwys sefydliadau eirioli a chyrff cynrychioliadol, i ymateb. Anogwyd rhanddeiliaid i adlewyrchu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn eu hymatebion. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi llywio'r broses o ddatblygu'r cynigion polisi terfynol a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Ymgynghori ar symud gofal cymdeithasol plant i fodel nid-er-elw [HTML] | LLYW.CYMRU

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n byw gyda gofalwyr maeth. Drwy alluogi parhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth lle bydd darparwr gwasanaeth maethu yn trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw, mae'r cynnig yn ceisio lleihau'r risg y bydd unrhyw darfu ar leoliadau maeth a chynnal sefydlogrwydd mewn trefniadau gofal plant. Mae sefydlogrwydd a pharhad cydberthnasau yn ffactorau pwysig wrth gefnogi llesiant, datblygiad a chanlyniadau plant.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar blant a phobl ifanc. Nid yw'r cynnig yn newid cymhwystra plant i gael gwasanaethau, eu mynediad at gymorth, na'r safonau y mae'n rhaid i wasanaethau maethu a gofalwyr maeth eu cyrraedd. Bydd gofynion diogelu, trefniadau goruchwylio, camau goruchwylio rheoleiddiol a phrosesau adolygu presennol yn parhau i fod yn berthnasol.

Wrth asesu effaith y cynnig, rhoddwyd ystyriaeth i Sylw Cyffredinol Rhif 14 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (lles pennaf y plentyn) a Sylw Cyffredinol Rhif 12 (hawl y plentyn i gael ei glywed). Mae'r cynnig yn ceisio cynnal sefydlogrwydd a pharhad lleoliadau i blant gan hefyd gadw'r dulliau presennol lle gall plant gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal.

Nodwyd bod Erthyglau canlynol CCUHP yn berthnasol i'r cynnig. Mae'r asesiad isod yn amlinellu sut mae'r cynnig yn gwella'r hawliau a ddarperir o dan bob Erthygl berthnasol. Nid ystyrir bod y cynnig yn cael effaith negyddol ar unrhyw hawliau o dan CCUHP. Caiff unrhyw risgiau posibl eu lliniaru drwy barhau i gymhwyso gofynion diogelu, prosesau ar gyfer goruchwylio gofalwyr maeth a chynnal adolygiadau, a gwaith rheoleiddio ac arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

- **Erthygl 3 – Lles pennaf y plentyn:** Mae'r cynnig yn cefnogi lles pennaf plant drwy leihau'r risg y bydd unrhyw darfu diangen ar leoliadau maeth pan fydd darparwr gwasanaeth maethu yn trawsnewid i fodel nid-er-elw. Bu cynnal sefydlogrwydd, parhad gofal a chydberthnasau sefydledig yn ystyriaeth allweddol drwy gydol y broses o ddatblygu'r polisi, yn unol â'r egwyddor y dylai lles pennaf y plentyn fod yn ystyriaeth flaenllaw.
- **Erthygl 19 – Amddiffyniad rhag Trais, Camdriniaeth ac Esgeulustod:** Mae'r cynnig yn cynnal y trefniadau presennol o ran prosesau diogelu, gofynion goruchwylio, adolygiadau ar gyfer gofalwyr maeth a chamau goruchwylio rheoleiddiol gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod plant yn parhau i gael eu hamddiffyn pan fydd darparwyr yn trawsnewid a bod safonau diogelu yn parhau i gael eu cynnal.
- **Erthygl 20 – Plant sydd wedi'u hamddifadu o'u hamgylchedd teuluol:** Mae'r cynnig yn helpu i gynnal parhad gofal i blant sy'n derbyn gofal sy'n byw gyda gofalwyr maeth drwy ganiatáu i gymeradwyaethau gofalwyr maeth barhau o dan amgylchiadau rhagnodedig. Drwy gefnogi sefydlogrwydd lleoliadau a lleihau'r risg o darfu yn ystod cyfnodau o drawsnewid sefydliadol, mae'r cynnig yn helpu plant sydd wedi'u hamddifadu o'u hamgylchedd teuluol i barhau i dderbyn gofal amgen sefydlog.
- **Erthygl 25 – Adolygiad o Driniaeth mewn Gofal:** Nid yw'r cynnig yn dileu'r gofynion adolygu presennol ar gyfer plant na gofalwyr maeth. Mae trefniadau gofal maeth yn parhau i fod yn destun adolygiadau a threfniadau goruchwylio statudol, gan gynnwys adolygu cymeradwyaethau gofalwyr maeth a drosglwyddwyd o fewn 12 mis.
- **Erthygl 39 – Adfer ac ailintegreiddio:** Drwy gefnogi lleoliadau maeth sefydlog a diogel, gallai'r cynnig gyfrannu at adferiad, llesiant a datblygiad

plant, yn enwedig pan fyddant wedi profi trawma neu pan fydd eu teulu wedi chwalu.

- **Erthygl 6 – Bywyd, goroesiad a datblygiad:** Mae'r cynnig yn cefnogi datblygiad plant drwy helpu i gynnal trefniadau gofal a chydberthnasau sefydlog, sy'n bwysig ar gyfer eu llesiant a'u datblygiad.
- **Erthygl 12 – Parch at farn y plentyn:** Er nad yw'r cynnig yn gwneud unrhyw newidiadau uniongyrchol i'r ffordd y caiff barn plant ei chasglu, mae'r polisi wedi ystyried gweithgarwch ymgysylltu a chyfranogi ehangach a gynhaliwyd drwy'r rhaglen i ddileu elw o wasanaethau sy'n darparu gofal i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Nid effeithir ar hawliau cyfranogi plant wrth gynllunio gofal, cynnal adolygiadau a gwneud penderfyniadau ynghylch eu trefniadau gofal ac maent yn parhau i gael eu hamddiffyn drwy ddeddfwriaeth ac arferion presennol.

Ystyriwyd yr argymhellion perthnasol o fewn Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2023 mewn perthynas â'r cynnig, fel a ganlyn:

- **Lles pennaf y plentyn - paragraff 21(a):** Mae'r cynnig yn cefnogi'r argymhelliad hwn drwy hyrwyddo sefydlogrwydd a pharhad mewn lleoliadau maeth a lleihau'r risg o achosion diangen o darfu arnynt pan fydd darparwr yn trawsnewid.
- **Parch at farn y plentyn - paragraff 23(a):** Ni fydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol i blant fynegi eu barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal, ac mae gwaith ymgysylltu ehangach â sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wedi llywio'r cynnig hwn.
- **Plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol - paragraffau 37 a 38:** Mae'r cynnig yn cefnogi'r argymhellion hyn drwy hyrwyddo sefydlogrwydd a pharhad lleoliadau pan fydd darparwyr yn trawsnewid, gan gynnal y trefniadau diogelu, cynllunio gofal ac adolygu presennol ar yr un pryd.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar hawliau dinasyddion yr UE o dan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion.

Mae'r cynnig yn ymwneud yn benodol â pharhad cymeradwyaethau gofalwyr maeth pan fydd darparwr gwasanaeth maethu yn trawsnewid o fodel er-elw i fodel nid-er-elw. Mae'r cynnig yr un mor berthnasol ni waeth beth fo cenedligrwydd neu statws mewnfudo'r unigolyn ac nid yw'n newid cymhwystra ar gyfer gwasanaethau maethu, mynediad at gymorth, na hawliau a theilyngdod plant a phobl ifanc.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol penodol ar blant a phobl ifanc sy'n ddinasyddion yr UE neu y mae hawliau a ddiogelir o dan y Cytundeb Ymadael â'r UE, y Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau'r AAE-EFTA neu Gytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir yn berthnasol iddynt. Yn unol â hynny, ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol.

4. Cyngor Gweinidogol a phenderfyniad y Gweinidog

Caiff dadansoddiad o'r effeithiau hyn ei gynnwys yn y cyngor Gweinidogol i geisio cytundeb i gyhoeddi'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gosod yr is-ddeddfwriaeth.

5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Mae'r cynnig o natur dechnegol a gweinyddol ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i blant a phobl ifanc gymryd unrhyw gamau, nac yn newid eu hawliau, eu hawliadau na'r ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud am eu trefniadau gofal unigol. Fel y cyfryw, ni chynhaliwyd unrhyw waith ymgysylltu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn benodol mewn perthynas â'r diwygiadau hyn.

Fodd bynnag, mae'r polisi wedi'i lywio gan weithgarwch ymgysylltu, ymgynghori a chyfranogi ehangach a gynhaliwyd drwy'r rhaglen i ddileu elw o wasanaethau sy'n darparu gofal i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Yn ogystal, cafodd barn a buddiannau plant a phobl ifanc eu hadlewyrchu drwy gyfranogiad sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o ofal maeth a'r system ofal ehangach.

Mae'r cynnig hefyd wedi'i lywio gan dystiolaeth sy'n tynnu sylw at y pwysigrwydd y mae plant a phobl ifanc yn ei roi ar sefydlogrwydd, parhad gofal a chydberthnasau y gellir ymddiried ynddynt. Roedd yr ystyriaethau hyn yn rhan greiddiol o'r broses o ddatblygu'r polisi a'i amcan o sicrhau y bydd cyn lleied o darfu â phosibl ar leoliadau maeth presennol pan fydd darparwyr yn trawsnewid.

Yn ystod y cam gweithredu, bydd unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc yn cael ei chyfleu drwy drefniadau cynllunio gofal, adolygu ac eirioli presennol, gyda chymorth awdurdodau lleol, gwasanaethau maethu a darparwyr gwasanaethau eirioli annibynnol lle y bo'n briodol. Bydd hawliau plant i fynegi eu barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal yn parhau i gael eu cefnogi drwy brosesau statudol presennol.

6. Monitro ac Adolygu

Caiff yr Asesiad Effaith Hawliau Plant ei adolygu'n gyson wrth i'r polisi ddatblygu ac ochr yn ochr â'r broses o ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac adborth gan randdeiliaid. Bydd y rheoliadau terfynol, y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig a'r trefniadau gweithredu yn cynnig cyfle pellach i adolygu'r asesiad a chadarnhau a nodwyd unrhyw effeithiau ychwanegol ar blant a phobl ifanc.

Ar ôl y cam gweithredu, caiff unrhyw faterion sy'n deillio o weithredu'r rheoliadau, adborth gan wasanaethau maethu, awdurdodau lleol, gofalwyr maeth, AGC, neu

dystiolaeth o effeithiau anfwriadol ar blant a phobl ifanc eu hystyried fel rhan o waith parhaus i fonitro'r polisi. Bydd y ddarpariaeth fachlud arfaethedig hefyd yn cynnig cyfle i ystyried a yw'r polisi'n parhau i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfredol, nid oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi na'r ffordd y caiff ei roi ar waith. Mae'r asesiad yn dangos bod disgwyl i'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar blant drwy gefnogi parhad a sefydlogrwydd mewn lleoliadau maeth, ac ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar hawliau plant. Byddai unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol yn cael eu llywio gan ganfyddiadau ymgyngoriadau, adborth gan randdeiliaid neu dystiolaeth weithredu.